Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

21 Chwefror 2017

Annwyl Kirsty,

Gwaith dilynol ar dystiolaeth a gafwyd: Dydd Mercher 15 Chwefror 2017

Ddydd Mercher, 15 Chwefror clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Estyn er mwyn cynnal gwaith craffu cyffredinol ar ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2015/16 ac rydym yn parhau i gael tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon. Byddai o gymorth mawr i waith y Pwyllgor pe byddech yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am y ddau faes a ganlyn:

Mesurau perfformiad CA4

Rydym yn deall bod newidiadau'n cael eu gwneud i'r mesurau perfformiad a ddefnyddir yng Nghyfnod Allweddol 4. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi esboniad o sut y bydd y rhain yn cymell ysgolion i gynorthwyo disgyblion i ennill y graddau uchaf.

Amlygwyd cyrhaeddiad cymharol graddau A*-A ac A*-C yn adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a drafodwyd yn y sesiwn gyda'r Pwyllgor.

Mewn datganiad gan y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2014, cydnabu Llywodraeth Cymru, o ran atebolrwydd ysgolion, fod gormod o bwys ar raddau C yn y trothwy Lefel 2 (5 TGAU graddau A*-C) a'r trothwy cynwysedig lefel 2 (gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg / Saesneg). Mae perygl i hyn ddigwydd ar draul cefnogi disgyblion mwy abl i wireddu eu potensial i'r eithaf os nad yw mesurau perfformiad yn rhoi digon o gymhelliant i ysgolion gynorthwyo disgyblion i ennill y graddau uchaf.

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 3 Gorffennaf 2014, dywedodd y Gweinidog ar y pryd y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn trwy ddefnyddio sgôr pwyntiau wedi'i chapio ddiwygiedig (sy'n mesur gwerth pob gradd unigol) fel y prif fesur perfformiad ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 o haf 2017 ymlaen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Cadarnhawyd mewn nodyn ystadegol gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2016 y byddai trefniadau newydd yn eu lle ar gyfer yr haf 2017. Fodd bynnag, roedd eich datganiad ar 30 Mehefin 2016 yn nodi y byddai'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno, ond na fyddai'n cael ei defnyddio fel y prif fesur perfformiad.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i wybod a yw'r symud oddi wrth y mesurau trothwy Lefel 2 a thuag at fesur sy'n ystyried cyrhaeddiad y graddau uchaf yn dal i ddigwydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod cynnydd wedi'i wneud o ran cyrhaeddiad mewn TGAU A*-C , ond bod y niferoedd sy'n llwyddo i gael graddau A*-A wedi gostwng ychydig, neu o leiaf wedi aros yn gymharol debyg. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud mwy i ymestyn disgyblion mwy galluog a thalentog, sydd â'r potensial i gyflawni'r graddau uchaf.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'ch bwriadau o ran mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a sut y byddant yn cael eu defnyddio i gymell disgyblion i sicrhau'r graddau uchaf yn ogystal â graddau C.

Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon

Clywodd y Pwyllgor gan Undebau Llafur sy'n cynrychioli penaethiaid yn ein cyfarfod ar 15 Chwefror, a thrafodwyd cymhellion i ddarpar athrawon.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i argymhelliad a geir yn adroddiad yr Athro Furlong *Addysgu Athrawon Yfory*, wedi ymrwymo i gynnal adolygiad annibynnol o'r cymhellion ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd i ddarpar athrawon.

I gynorthwyo gyda'n hymchwiliad a'n hargymhellion ym maes Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon, byddem yn gwerthfawrogi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad hwnnw, yr amserlen ar hyn o bryd, ac unrhyw ganfyddiadau interim.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd